

GOUGH (GOCH), MATHAU (fl. hanner cyntaf y 15fed ganrif), milwr

Enw: Mathau Gough
Rhiant: Owen Gough
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: Howell Thomas Evans

Ganwyd tua 1390, brodor o Faelor. Owen Gough, beili [Hanmer](#), oedd ei dad, a'i fam yn ferch David Hanmer; bu hi'n famaeth John, arglwydd Talbot (iarll Shrewsbury wedi hynny). O'r lluo Gymry a fu'n ymladd yn Ffrainc yn ystod rhan olaf y Rhyfel Can Mlynedd nid enillodd neb fwy o glod na Mathew Gough. Ceir ei enw yn rhestrau y rhai a gymerth ran ym mrwydrau Crevant (1423) a Verneuil (1424). Bu wedi hynny â gofal gwahanol drefi ac amddiffynfeydd arno - yn cynnwys Laval, S. Denis, Le Mans, Bellême, a Bayeux. Yn 1432 cymerwyd ef yn garcharor yn S. Denis, a pharodd hyn gryn ofid ymhlith beirdd yng Nghymru a gwneuthur apêl am arian pridwerth er mwyn ei ryddhau. Dyma, er enghraifft, yr hyn a ddywed [Guto'r Glyn](#): 'Bu ar glêr bryder a braw, Ban ddaliwyd, beunydd wylaw.' Arno ef, yn bennaf, y syrthiodd y cyfrifoldeb o drefnu trosglwyddo Anjou a Maine i'r Ffrancod, wedi i'r parthau hynny orfod rhoi i fyny; gwaith o'i anfodd oedd hyn ac adroddir iddo syrthio'n ôl ar amryw 'subterfuges, pretences, and dissimulations' wrth gyflawni'r gwaith (1447). Wedi i'r Saeson gael eu gorchfygu yn Formigny (1449) a cholli Normandi wedi hynny, dychwelodd Gough i Lundain a bu'n gyd-ofalwr T r Llundain. Lladdwyd ef ar Bont Llundain, pan oedd yn amddiffyn dinas Llundain yn erbyn Jack Cade a'i gyd-wrthryfelwyr, ar nos Sul 5-6 Gorffennaf 1450 a chladdwyd ef yng nghôr Mair y Brodyr Carmelaidd yn Llundain. Dywed William o Worcester, y cronicydd, i'w farw beri galar cyffredinol yng Nghymru. Y mae'r sylw mawr a roddir iddo gan gronicyddion cyfoes Ffrainc yn gryfach prawf o'i enwogrwydd. Am flynyddoedd wedi ei farw coffeid yr enw ' Matago ' yn annwyl gan drigolion Bellême. Efe a gafodd yr anrhydedd o annerch y milwyr o Loegr ar fin brwydr Formigny. A'i orchfygu ef a barodd fwyaf o lawenychu ymhlith y cronicyddion.

Awdur

Howell Thomas Evans, (1878 - 1950)

Ffynonellau

Letters and Papers Illustrative of the Wars of the English in France (1861–4)

Recueil des Croniques et Anchiennes Istories de la Grant Bretagne ... Par Jehan de Waurin (1864–91)

Chronicle containing the History of England from Henry IV to Henry VIII (1809)

Anglica Historia, A.D. 1485-1537

The Paston letters, 1422-1509 A.D (1874)

De Reductione Normanniae (1863)

Proceedings and Ordinances of the Privy Council of England (Record Commission London 1834-37)

Letters of Queen Margaret of Anjou and Bishop Becketon and others written in the reigns of Henry V and Henry VI (1863)

Rymer, *Foedera conventiones, litteræ, et cujuscunq̄ generis acta publica, inter reges Angliæ et alios quosuis*

imperatores, reges, pontifices, principes, vel communitates, ab ingressu Gulielmi I. in Angliam, A.D. 1066, ad nostra usque tempora habita aut tractata ex autographis, infra secretiores archivorum regionum thesaurarias, asservatis, aliisque summæ vetustatis instrumentis, ad historiam anglicanam spectantibus, fideliter exscripta (1816-1830, 1869)

Record Reports William of Worcester

William of Worcester, *Annales Rerum Anglicarum* (1861–4)

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846)

Gwaith Lewis Glyn Cothi

Gwaith Guto'r Glyn (1939)

Casgliad o waith leuan Deulwyn o wahanol ysgriflyfrau (Bangor 1909)

Howell T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge 1915)

Yn yr Probert, '[Matthew Gough 1390-1450](#)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* 1961, Pt. II, 34-44

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Mathau Goch](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18440082](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

